DATGANIAD GAN WEINIDOGION CYMRU

# 2020 Rhif (Cy. )

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Datganiad o fygythiad i iechyd y cyhoedd yng Nghymru oherwydd y coronafeirws

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r datganiad)*

Mae Rhan 4 o Atodlen 22 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn rhoi i Weinidogion Cymru bwerau sy'n ymwneud â digwyddiadau, cynulliadau a mangreoedd yng Nghymru os bydd bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd yng Nghymru oherwydd y coronafeirws.

Mae paragraff 26 o'r Atodlen honno yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud datganiad o dan y paragraff hwnnw os ydynt o'r farn—

(a) bod mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws yn peri bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd yng Nghymru, a

(b) y bydd y pwerau yn yr Atodlen yn ddull effeithiol o—

(i) atal, diogelu rhag, oedi neu reoli fel arall fynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws yng Nghymru, neu

(ii) hwyluso'r defnydd mwyaf priodol o bersonél ac adnoddau meddygol neu bersonél ac adnoddau brys yng Nghymru.

Cyn gwneud datganiad o dan baragraff 26 o Atodlen 22, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Phrif Swyddog Meddygol Cymru neu un o Ddirprwy Brif Swyddogion Meddygol Cymru.

Ar ôl llunio'r farn a amlinellir uchod ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Meddygol Cymru, mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud y datganiad hwn o dan baragraff 26 o Atodlen 22.

Effaith y datganiad yw galluogi Gweinidogion Cymru i ddefnyddio'r pwerau a roddir iddynt gan Ran 4 o Atodlen 22 i Ddeddf y Coronafeirws 2020.

Mae Rhan 4 o Atodlen 22 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud cyfarwyddydau yn ymwneud â gwahardd digwyddiadau neu gynulliadau neu gyfyngu arnynt ac â chau mangreoedd neu osod cyfyngiadau ar bersonau sy'n mynd i fangreoedd neu'n aros ynddynt.

Caniateir i'r cyfarwyddydau gael eu gwneud neu eu hamrywio o'r adeg y gwneir y datganiad hwn a hyd nes y caiff y datganiad ei ddirymu. Cyfeirir at y cyfnod sy'n dechrau â gwneud y datganiad hwn a'i ddirymu fel "public health response period" yn Atodlen 22 i Ddeddf y Coronafeirws 2020.

DATGANIAD GAN WEINIDOGION CYMRU

# 2020 Rhif (Cy. )

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Datganiad o fygythiad i iechyd y cyhoedd yng Nghymru oherwydd y coronafeirws

*Gwnaed* ***


Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Meddygol Cymru, yn datgan o dan baragraff 26 o Atodlen 22 i Ddeddf y Coronafeirws 2020(**1**) eu bod o'r farn—

(a) bod mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws yn peri bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd yng Nghymru, a

(b) y bydd y pwerau a roddir gan Ran 4 o Atodlen 22 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn ddull effeithiol o—

(i) atal, diogelu rhag, oedi neu reoli fel arall fynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws yng Nghymru, a

(ii) hwyluso'r defnydd mwyaf priodol o bersonél ac adnoddau meddygol a phersonél ac adnoddau brys yng Nghymru.



*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad 29 Mawrth 2020

(**1**) 2020 p. 7.